Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer

2 Ffordd Siabod

Y Felinheli

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/12/2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

2 Ffordd Siabod

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Prestwood Residential Homes Ltd a CareTech Community Services Limited.
Lleoedd cofrestredig	2
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	15 Ionawr 2020
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau byw yn y cartref, eu bod yn teimlo'n ddiogel a bod ganddynt ddigon i'w wneud. Mae'r aelodau parhaol o'r staff yn brofiadol ac yn adnabod y bobl yn dda. Mae'r cartref yn cyflogi rhai staff asiantaeth er mwyn cynnal lefelau staffio priodol. Er bod y cartref yn ceisio defnyddio'r un staff gofal asiantaeth, dywedodd y bobl wrthym nad ydynt yn gwybod pa staff gofal asiantaeth fydd yn gofalu amdanynt cyn iddynt gyrraedd, a bod hyn yn gwneud iddynt deimlo'n bryderus.

Gall y bobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt ac mae amrywiaeth o weithgareddau ar gael iddynt, dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i ymweld ag aelodau o'r teulu ac i gadw mewn cysylltiad rheolaidd â nhw.

Yn gyffredinol, caiff y bobl ofal mewn amgylchedd diogel sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Gallant ddewis sut i addurno eu hystafelloedd gwely. Mae'r bobl yn teimlo'n gyfforddus am eu bod yn cael gofal mewn amgylchedd dymunol, cartrefol a glân.

Gwnaethom nodi chwe maes i'w wella. Mae'r rhain yn ymwneud â chofnodion asesiadau, cynlluniau personol, goruchwylio'r staff gofal a'r broses gwyno. Rydym yn disgwyl i ddarparwr y gwasanaeth gymryd camau i sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Llesiant

Ni all y bobl fod yn siŵr y byddant yn cael y gofal a'r cymorth cywir. Nid yw'r cynlluniau personol yn rhoi digon o wybodaeth benodol i'r staff gofal ynglŷn â sut i gefnogi'r bobl o ddydd i ddydd. Nid yw'r wybodaeth yn gyfredol ac nid oes gwybodaeth ychwanegol wedi'i hychwanegu at y cynlluniau yn sgil eu hadolygu. Felly, nid yw'n glir a yw'r cynlluniau'n helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol.

Mae'r bobl yn teimlo y gallant siarad â'r rheolwr am faterion neu bryderon, ac roedd y rheolwr wedi ymateb i bryder a godwyd. Fodd bynnag, nid oedd y rheolwr wedi cofnodi'r mater na ph'un a gynhaliwyd unrhyw ymchwiliad, ac nid oedd wedi darparu ymateb ysgrifenedig i'r achwynydd. Felly ni all y bobl fod yn siŵr y caiff eu lleisiau eu clywed ac y gwrandewir arnynt. Rydym yn disgwyl i ddarparwr y gwasanaeth fynd i'r afael â'r maes hwn o ddiffyg cydymffurfio, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i fod yn iach yn emosiynol ac yn gorfforol. Maent yn annog y bobl i fod yn egnïol ac i fwyta'n iach. Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n bwysig iddynt. Dywedodd unigolyn wrthym ei fod yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau a bod ganddo ddigon i'w wneud. Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i ymweld â'u teuluoedd ac i gadw mewn cysylltiad â'r rhai sy'n bwysig iddynt.

Mae'r darparwr wedi rhoi trefniadau ar waith i leihau'r risgiau i iechyd a diogelwch y bobl gymaint â phosibl. Mae'r staff yn gwybod â phwy i gysylltu a beth i'w wneud os byddant yn meddwl unigolyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin. Mae systemau addas ar waith i oruchwylio ac archwilio'r trefniadau rheoli meddyginiaethau.

Mae systemau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r bobl yn fodlon ar y cartref a'u hystafelloedd gwely. Mae'r tîm rheoli yn goruchwylio trefniadau cynnal a chadw ac iechyd a diogelwch y gwasanaeth.

Gofal a Chymorth

Nid oedd darparwr y gwasanaeth wedi cwblhau asesiad ysgrifenedig i gadarnhau y gallai'r gwasanaeth gefnogi unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol. Esboniodd yr Unigolyn Cyfrifol fod y person wedi symud o un o wasanaethau eraill darparwr y gwasanaeth ac, felly, fod ei anghenion eisoes yn hysbys. Fodd bynnag, mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr y gwasanaeth gynnal asesiad cyn i unigolyn symud i'r cartref. Mae'r rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr y gwasanaeth gwblhau asesiad y darparwr o fewn saith diwrnod ar ôl i unigolyn symud i'r cartref, ac i adolygu'r asesiad hwn yn barhaus. Rydym yn disgwyl i ddarparwr y gwasanaeth gymryd camau i sicrhau yr eir i'r afael â'r meysydd hyn.

Mae angen gwella'r cynlluniau personol. Nid oedd rhywfaint o'r wybodaeth yn gywir, ac nid oedd y nodau'n ddigon clir i'r staff gofal helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Nid yw'r adolygiadau o gynlluniau yn cynnwys unrhyw fanylion am gynnydd a wnaed nac unrhyw faterion sydd wedi datblygu. Nid yw'r rheolwr yn ymchwilio i ddigwyddiadau i ganfod a yw'r dulliau a ddefnyddir gan y staff gofal yn briodol.

Mae gan y bobl gydberthnasau da â'r rhan fwyaf o'r aelodau parhaol o staff, sy'n darparu gofal cyson iddynt. Fodd bynnag, mae darparwr y gwasanaeth yn cyflogi staff asiantaeth er mwyn sicrhau bod digon o staff gofal ar ddyletswydd. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gwybod pa staff gofal parhaol fydd yn gweithio gyda nhw y diwrnod nesaf, ond nad ydynt bob amser yn siŵr pa staff asiantaeth fydd yn gofalu amdanynt nes iddynt gyrraedd y cartref. Dywedodd y bobl wrthym bod hyn peri gofid iddynt ac y byddai'n well ganddynt wybod ymlaen llaw pwy fydd yn gofalu amdanynt.

Mae'r staff gofal yn monitro iechyd y bobl ac yn eu hannog i gadw'n iach ac i ddilyn ffordd iach o fyw. Mae'r bobl wedi'u cofrestru â gwasanaethau iechyd a chaiff apwyntiadau iechyd eu cofnodi. Mae'r staff gofal yn gwneud atgyfeiriadau iechyd er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y driniaeth sydd ei hangen arnynt ar yr adeg gywir.

Caiff hunaniaeth a diwylliant unigol y bobl eu parchu, a gall y bobl fynegi eu hunain yn eu dewis iaith. Mae darparwr y gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ac mae'n cyflogi rhai staff gofal sy'n siarad Cymraeg a allai weithio'n uniongyrchol â'r bobl sy'n dymuno cael gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n diwallu eu hanghenion ac yn eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl. Gallant wneud pethau drostynt eu hunain am fod cynllun a dyluniad y cartref a'i gyfleusterau yn hyrwyddo annibyniaeth a hygyrchedd. Bu'r cartref yn wag am gyfnod er mwyn adnewyddu'r adeilad. Mae'r cartref yn cynnig llety cysurus, glân a chartrefol. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hoffi'r cartref a'u hystafelloedd gwely a'u bod yn gallu dewis sut i'w haddurno a chael pethau o'u cwmpas y maent yn eu hoffi. Mae'r dodrefn mewn cyflwr da ac mae gan y bobl luniau o'r rhai sy'n bwysig iddynt.

Mae contractau ar waith ar gyfer gwasanaethu'r system wresogi, gosodiadau trydanol a'r cyfarpar diogelwch tân yn rheolaidd. Mae'r cartref yn nodi risgiau i'r amgylchedd a gweithgareddau ac yn rhoi mesurau ar waith i'w lleihau. Mae asesiad risg tân ac mae'r staff gofal yn trefnu ymarferion tân ac yn sicrhau bod y cyfarpar diogelwch tân a'r synwyryddion mwg yn cael eu profi'n rheolaidd.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r darparwr yn nodi'r ffordd y bydd y cartref yn diwallu anghenion y bobl yn natganiad o ddiben y cartref. Mae'r bobl yn cael copi o ganllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth cyn symud i'r cartref.
Mae'r darparwr wrthi'n recriwtio staff gofal newydd gan nad oes digon o aelodau parhaol o staff gofal yn y tîm. Mae'r darparwr yn defnyddio staff asiantaeth er mwyn sicrhau bod digon o staff gofal ar bob sifft.

Dywedodd y staff gofal fod y tîm yn gefnogol a bod y rheolwr ar gael ac yn hawdd mynd ato. Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod y staff gofal wedi cael sesiynau goruchwylio un i un gyda'r rheolwr llinell fel sy'n ofynnol, a dim ond un cyfarfod tîm a gynhaliwyd ers mis Ebrill 2022. Rydym yn disgwyl i ddarparwr y gwasanaeth gymryd camau i sicrhau y caiff y staff gofal eu goruchwylio fel sy'n ofynnol, er mwyn eu helpu i fyfyrio ar eu hymarfer a sicrhau eu bod yn cynnal eu cymhwysedd proffesiynol. Hyfforddiant ar-lein a ddarperir i'r staff gofal yn bennaf, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod yr hyfforddiant yn addas ac yn llywio eu hymarfer.

Mae gan y darparwr systemau sicrhau ansawdd ar waith i fonitro'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei weithredu. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn newydd i'w rôl ac mae wedi ymweld â'r gwasanaeth deirgwaith. Mae hefyd wedi cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal a ddarperir yn y cartref ac wedi llunio adroddiad ar ei ganfyddiadau. Mae darparwr y gwasanaeth cyflogi swyddogion ychwanegol i ymweld â'r gwasanaeth i gyfarfod â'r bobl sy'n byw yn y cartref a gwirio cofnodion.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	**Ystyr pob un**
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G
	Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio â Rheoliad 67. Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi penodi unigolyn i reoli'r gwasanaeth.	Cyflawnwyd

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
14	Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi darparu cadarnhad ysgrifenedig y gall y gwasanaeth gefnogi'r gwasanaeth gefnogi unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth benderfynu a yw'r gwasanaeth yn addas i ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn.	Newydd
15	Roedd y wybodaeth yn y cynlluniau gofal yn anghywir, ac nid oedd pob aelod o'r staff wedi llofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen y cynlluniau. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth baratoi cynllun ar gyfer pob unigolyn sy'n nodi'r gofal a'r cymorth y cytunwyd arno. Rhaid i'r cynlluniau personol roi canllawiau clir ac adeiladol i'r staff gofal ynglŷn â'r unigolyn, ei anghenion gofal a chymorth a'r canlyniadau yr hoffai eu cyflawni.	Newydd
16	Pan gaiff y cynlluniau personol eu hadolygu, ni chânt eu diwygio neu eu datblygu i adlewyrchu newidiadau i anghenion gofal a chymorth yr unigolyn a'i ganlyniadau personol. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod y cynlluniau'n cynnwys digon o wybodaeth am anghenion yr unigolyn, a'r graddau y maent wedi gallu cyflawni eu canlyniadau personol.	Newydd
18	Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi cwblhau asesiad y darparwr. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth gwblhau asesiad y darparwr o fewn saith diwrnod ar ôl i unigolyn gael ei dderbyn i'r cartref, gan adolygu'r asesiad yn barhaus a'i ddiwygio pan fo angen.	Newydd
36	Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod pob aelod o'r staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio unigol fel sy'n ofynnol. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau y caiff pob aelod o'r staff gofal sesiynau goruchwylio un i un gyda'i reolwr llinell unwaith bob chwarter o leiaf.	Newydd
64	Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod y gwasanaeth wedi dilyn y polisi cwyno. Rhaid i	Newydd

	ddarparwr y gwasanaeth roi trefniadau effeithiol ar waith i ddelio â chwynion fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.	

Dyddiad Cyhoeddi 12/04/2023